

PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Llun, 10 Mehefin 2013 am 2.00 pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), William Cowie, Ann Davies, Meirick Davies, Pat Jones, Margaret McCarroll, Dewi Owens, Bill Tasker a/ac Huw Williams

Sylwedyddion: Y Cynghorwyr Raymond Bartley, Martyn Holland a/ac Bobby Feeley

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) (SE); Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes (PG); Rheolwr Datblygu & Phrosiect Partneriaeth (LG); Rheolwr Gwasanaeth, Ardal y Gogledd (CC-N), Cydlynedd Craffu (RE) a Swyddog Gweinyddol Pwyllgorau (SLW).

Cynrychiolwyr BIPBC

Neil Bradshaw, Cyfarwyddwr Cynllunio; Sally Baxter, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio, Strategaeth a Chysylltiad; Clare Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gwasanaethau Cynradd a Chymuned; Simon Pyke, Pennaeth Cyswllt Staff (Gweithrediadau) Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu; Yvonne Harding, Pennaeth Cyswllt Staff (Nyrsio) Plant a Phobl Ifanc; Andrew Jones, Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus; Delyth Jones, Prif Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus; Dr Judy Hart, Ymgynghorydd mewn Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Alice Jones a/ac Merfyn Parry

Cyn i'r cyfarfod ddechrau, darllenodd y Cadeirydd y datganiad canlynol:-

"Tynnwyd sylw'r Cyngor gan Home-Start Sir Ddinbych bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Partneriaethau ddydd Iau 12 Gorffennaf 2012 mewn perthynas â phroses dendro Teuluoedd yn Gyntaf, yn rhoi argraff gamarweiniol o'r sefydliad hwnnw. Mae hyn yn ymwneud yn benodol at ddatganiad a wnaed gan y Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad yn ystod y drafodaeth gydag Aelodau ynglŷn â bidiau consortia ar gyfer y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, yr oedd Home-Start yn bartner mewn dau.

Derbynnir yn llawn bod y cofnodion yn creu argraff gamarweiniol am Home-Start ac felly hoffwn fanteisio ar y cyfle i gywiro unrhyw argraff a roddwyd bod costau Home-Start yn gymharol uchel; bod y sefydliad ond yn darparu gwasanaethau i blant dan bump oed a bod cyfraniad Home-Start i'r bidiau consortia dan sylw ond yn gysylltiedig â'r gwaith a wnaethpwyd eisoes bryd hynny. Mae'r Cyngor yn derbyn nad yw'r datganiadau hyn yn

gywir.

Roedd y drafodaeth yn y cyfarfod yn ymwneud â'r bidiau a gyflwynwyd gan wahanol gonsortia ac er fod Home-Start yn aelodau o ddau o'r rhain, ac felly â rhan mewn dau fid gwahanol ar gyfer gwahanol elfennau o'r rhaglen, roedd ffocws yr Aelodau presennol ar Home-Start ei hun, ac efallai bod hyn wedi cyfrannu at yr argraff gamarweiniol a roddwyd yn y cofnodion.

2 ETHOL IS-GADEIRYDD

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor gofynnwyd am CV/ Datganiadau oddi wrth rai â diddordeb ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd. Cafwyd dwy CV cyn y cyfarfod a'u dosbarthu i'r holl Aelodau.

Cafodd y Cynghorydd E.A. Jones ei enwebu ar gyfer swydd Is-Gadeirydd y Pwyllgor ond nid oedd eilydd.

Cafodd y Cynghorydd Huw Williams ei enwebu a'i eilio ar gyfer swydd Is-gadeirydd y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Huw Williams yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

3 DATGAN CYSYLLTIAD

Cafodd datganiadau o gysylltiadau personol eu gwneud gan y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones, Ann Davies a Bill Tasker.

4 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2013.

Materion yn Codi:

Gofynnodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies am gynnwys cyfeiriadau yn y cofnodion i'r achosion o lifogydd yn ardaloedd Ffordd Isaf Dinbych/ Cefnmeiriadog yn ei ranbarth etholiadol. Cyfeiriwyd yn benodol at y ffaith nad oedd preswylwyr a oedd yn byw yn y rhan wledig o Ffordd Isaf Dinbych wedi cael eu hysbysu bod lefelau'r afonydd yn codi a'r risg llifogydd canlyniadol a'r ffaith bod pont yn ardal Pont-y-Ddôl wedi cael ei chario ymaith gan goeden a oedd wedi diwreiddio a'i chario i lawr yr afon.

PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod, cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2013 fel cofnod cywir.

6 Y DIWEDDARAF AR AD-DREFNU GOFAL IECHYD

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr BIPBC i'r cyfarfod Pwyllgor Archwilio Partneriaethau.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau i gynrychiolwyr BIPBC gan yr Aelodau fel a ganlyn:-

Gofynnodd y Cynghorydd Ann Davies a fyddai'r gwasanaeth llawdriniaeth frys yn cael ei drosglwyddo o Ysbyty Glan Clwyd (YGC) i Ysbyty Gwynedd (YG) ym Mangor, ac os felly a fyddai gan YG y gallu i ddelio â'r llwyth gwaith ychwanegol? Pa effaith fyddai'r trosglwyddo'n ei gael ar yr Adran D & AB yn YGC? Faint o staff YGC fyddai'n colli eu swyddi a beth fyddai'r gost o drosglwyddo staff o YGC i YG? Yn aml roedd problemau ar yr A55 a fyddai'n achosi oedi hir, pa effaith fyddai hyn yn ei gael ar y gwasanaeth llawdriniaeth frys?

Eglurodd cynrychiolwyr BIPBC nad oedd penderfyniad wedi'i wneud eto gan y Bwrdd i drosglwyddo gwasanaeth llawdriniaeth frys o YGC i YG. Byddai'n well gan y Bwrdd i gadw'r gwasanaeth llawdriniaeth frys yn YGC. Roedd y Bwrdd ar hyn o bryd wedi ymrwymo i gadw llawdriniaethau cyffredinol brys ar bob safle ac wedi ymrwymo i recriwtio llawfeddygon a meddygon iau.

Byddai'r Bwrdd angen sicrwydd o ran y capasiti theatrau yn YG os oeddent yn ystyried trosglwyddo gwasanaethau llawdriniaeth frys. Byddai achosion brys yn cymryd cysail ond byddai'n rhaid bodloni targedau amser gweithio hefyd.

O ran y gost, y flaenoriaeth fyddai darparu gwasanaeth da ac ymatebion brys gan bobl gymwys a phrofiadol, felly ni fyddai o reidrwydd yn gam arbed costau.

Mae clinigwyr wedi bod yn gysylltiedig â'r trafodaethau ynglŷn â'r Adolygiad Gwasanaethau Aciwt.

Eglurodd Cyfarwyddwr Cynllunio, BIPBC, wrth y Pwyllgor y byddai'r model yn cael ei newid ar gyfer Ysbytai Cyffredinol yn y dyfodol. Byddai Ysbytai Cyffredinol yn cael eu datblygu fel Canolfannau Arbenigol. Byddai'r Ganolfan Cardialog sydd ar hyn o bryd yn YGC yn aros yn YGC ac roedd cyfleusterau newydd yn cael eu hadeiladu yno ar hyn o bryd.

Cododd y Cynghorydd Dewi Owens y mater o recriwtio a sut y gellid diogelu hyn.

Ymatebodd BIPBC gan nodi eu bod yn recriwtio ar hyn o bryd. Mewn rhai ardaloedd, roedd yn anodd recriwtio. Roedd llawer o feddygon y DU yn mynd i weithio dramor. Bu newid mewn swyddi hyfforddi ar gyfer meddygon iau. Roedd adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Roedd y mater o recriwtio yn her ledled y DU, nid yng Nghymru yn unig. Roedd y Ddeoniaeth yn newid y nifer o swyddi hyfforddi ac yn edrych ar sicrhau gwell lleoedd hyfforddi ar gyfer darpar feddygon. Roedd BIPBC yn cwrdd â'r Ddeoniaeth yn rheolaidd i drafod materion.

Gofynnodd y Cyngorydd Jeanette Chamberlain-Jones am i Ymgynghorydd BIPBC fynychu cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yn y dyfodol fel rhan o ddirprwyaeth BIPBC. Cytunodd cynrychiolwyr BIPBC ond cadarnhawyd byddai Ymgynghorwyr angen o leiaf chwe wythnos o rybudd oherwydd eu hymrwymiaidau gwaith.

Mynegodd y Cyngorydd Margaret McCarroll bryder ynglŷn â'r nifer o ambiwlansys sy'n ciwio yn YGC. Ar un achlysur roedd 13 o ambiwlansys yn ciwio gyda chleifion yn aros i gael eu derbyn. Gofynnodd y Cyngorydd McCarroll pa effaith oedd gan brinder gwllau ar amseroedd aros y gwasanaeth ambiwlans a D&AB?

Roedd BIPBC yn ymwybodol o'r pwysau yn D&AB yn YGC. Nid oeddent yn gallu rhoi sylwadau ynglŷn â'r nifer o ambiwlansys yn aros. Roedd targed amser trosglwyddo o 15 munud a oedd yn darged a rannwyd gan y Gwasanaeth Ambiwllans a'r BIPBC. Unwaith eto, roedd hyn yn broblem ar draws y DU ac nid yng Nghymru'n benodol. Roedd gwaith yn cael ei wneud ar wella'r system ac i ddatrys y broblem hon.

Yn y gorffennol, bu problemau ynglŷn â heintiau a chafodd rhai wardiau eu cau dros dro er mwyn glanhau dwys.

Roedd effaith twf y genhedlaeth hŷn yn effeithio ar y Gwasanaeth Iechyd i gyd. O fewn BIPBC, roedd nifer o wardiau gyda nifer fawr o gleifion bellach dros 90 oed.

Cyd-Fwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych

Diben Cyd-Fwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol oedd i lunio, cytuno, mesur a monitro datblygiad iechyd a gofal cymdeithasol strategol ar lefel sirol gan sicrhau ffocws ar brofiad integredig ar gyfer cleifion/ defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys:-

- (i) Ysgogi newid a thrawsnewid gwasanaethau, gan gynnwys blaenoriaethau ar y cyd a nodwyd yn y Cynllun Integredig
- (ii) Bod yn gerbyd i oruchwylio gweithredu gwasanaethau integredig ar y cyd
- (iii) Darparu trefniant llywodraethu ar y cyd ar gyfer gwasanaethau integredig y cytunwyd arnynt.

Ar y mater o ryddhau cleifion o'r ysbyty, holodd y Cyngorydd Ann Davies a oedd cleifion yn cael eu rhyddhau i'r gymuned heb i llythyrau rhyddhau gael eu hanfon at eu meddygon teulu. Gofynnodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio, Strategaeth ac Ymgysylltu BIPBC am fanylion unrhyw achosion penodol er mwyn galluogi cynnal ymchwiliadau. Bu problemau yn y gorffennol ynglŷn â llythyrau rhyddhau ac roedd PBP yn ceisio gwella manylion llythyrau rhyddhau. Cytunodd cynrychiolydd BIPBC i ymchwilio i'r mater ymhellach a rhoi diweddariad mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Gwasanaethau Gofal Uwch yn y Cartref (HECS), mynegodd yr aelodau bryder nad oedd meddyg teulu arweiniol ardal wedi cael ei benodi ar gyfer de'r sir. Cadarnhaodd BIPBC fod meddyg teulu o Ddinbych, Dr Matt Davies, yn cefnogi gofal uwch yn yr ardal.

PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod, derbyniodd a nododd y Pwyllgor y diweddaraf ar Ad-drefnu Gofal Iechyd.

7 DATBLYGU UN PWYNT MYNEDIAD AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YN SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes (H:A&BS) adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor ynglŷn â datblygu Pwynt Mynediad Sengl (SPA) ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol yn Sir Ddinbych. Roedd y Gwasanaeth hwn i fod i fynd yn fyw ddiwedd mis Hydref, 2013 ond gallai'r gwir ddyddiad mynd yn fyw fod tipyn ymhellach oherwydd yr angen i sicrhau a chadarnhau ffynonellau cyllid.

Roedd y prosiect yn cael ei gyflwyno mewn partneriaeth â BIPBC a'r sector wirfoddol a oedd wedi cefnogi'r datblygiad mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Byddai'r costau a fyddai'n gysylltiedig â sefydlu'r Gwasanaeth yn cael ei ariannu gan y Rhaglen Cydweithredu Rhanbarthol, gyda'r costau gwasanaeth parhaus yn cael eu talu gan y partneriaid fel y byddai'n cael ei nodi yn y Cytundeb Adran 33 a oedd yn cael ei ddrafftio. Yn achos Cyngor Sir Ddinbych, byddai hyn o'r adnoddau presennol.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn derbyn a chefnogi datblygu Un Pwynt Mynediad.

8 CYFLWYNO MESUR IECHYD MEDDWL CYMRU YN SIR DDINBYCH (GWASANAETHAU CYMORTH IECHYD MEDDWL SYLFAENOL LLEOL CYNT)

Cyflwynodd y Pennaeth Staff Cysylltiol (Gweithrediadau) Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (ACS: MH&AD) adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau. Roedd Mesur Iechyd Meddwl Cymru'n rhoi cyfrifoldebau cyfreithiol ar Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol mewn perthynas â chyflwyno'r pedair elfen o'r Mesur Iechyd Meddwl ar draws Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc:-

- (i) Datblygu Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol
- (ii) Cyflwyno Cynllunio Gofal a Thriniaeth
- (iii) Yr hawl i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd wedi cael eu rhyddhau i ofyn am ailasesiad
- (iv) Datblygu Gwasanaethau Eirioli ar gyfer cleifion dan orchymyn a chleifion anffurfiol o fewn y gwasanaeth.

Bellach roedd gan bob sir Reolwr penodedig i sicrhau bod y rhyngwyneb yn gweithio'n iawn.

Roedd Un Pwynt Mynediad (SPA) wedi cael ei gyflwyno er mwyn galluogi

meddygon teulu i gael un pwynt cyfeirio ar gyfer unrhyw fater lechyd Meddwl.

Roedd e-atgyfeiriadau wedi cael eu cyflwyno ar gyfer atgyfeiriadau lechyd Meddwl.

Mae gwasanaeth cwnsela ar gyfer meddygon teulu wedi cael ei gomisiynu i alluogi meddygon teulu i atgyfeirio i'r gwasanaeth ar unwaith.

Cyflwynodd Mesur lechyd Meddwl Cymru Gynllun Gofal a Thriniaeth (CTP) newydd a byddai'n rhaid cwblhau'r broses bontio i hwn erbyn mis Mehefin.

Disgwyliwyd o hyd am wybodaeth ynglŷn ag ailasesiad ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a gafodd eu rhyddhau.

Byddai'r Mesur lechyd Meddwl yn cynorthwyo gyda rheoli pobl a oedd mewn risg. Byddai'r Mesur yn galluogi asesu manwl a llunio cynllun gofal addas. Yr allwedd oedd sicrhau pan fo anghenion yn newid, bod y cynllun gofal a'r gwasanaeth yn ymateb i'r newid hwnnw.

Byddai gan bawb o fewn y gwasanaeth gynllun gofal. Unwaith y buasent yn ddigon da, buasent yn cael eu symud i ofal sylfaenol. Os, am unrhyw reswm, y buasent yn mynd yn sâl eto, buasent yn cael eu hatgyfeirio'n syth ac yn cael eu gweld yn gyflym iawn. Weithiau byddai D&AB yn atgyfeirio, neu'r gwasanaeth tu allan i oriau neu'r heddlu.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, dwedodd swyddogion BIPBC dylai darpariaethau'r Mesur helpu i sicrhau na ddylai nifer yr achosion o ddynladdiad neu hunanladdiad sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl gynyddu, a darparu mwy o hyblygrwydd rhwng gofal iechyd meddwl sylfaenol ac eilaidd. Cadarnhawyd hefyd bod y gwasanaeth Un Pwynt Mynediad yn wasanaeth hollol wahanol i'r Un Pwynt Mynediad a oedd yn cael ei ddatblygu ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol yn Sir Ddinbych. Cadarnhaodd swyddogion y Cyngor nad oedd unrhyw dystiolaeth hyd yma i awgrymu bod y Mesur yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau gofal cymdeithasol yr Awdurdod.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn cefnogi datblygu gwasanaethau o dan y Mesur ac yn cydnabod y perthnasau gwaith da rhwng lechyd a Gofal Cymdeithasol o ran darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn Sir Ddinbych a'r newidiadau cysylltiedig mewn perthynas â'r ystod oedran llawn.

9 GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL PLANT A PHOBL IFANC (CAMHS)

Rhoddodd y Pennaeth Staff Cysylltiol (Nyrsio), Plant a Phobl Ifanc (SCS: C&YP) y newyddion diweddaraf ar lafar am y Gwasanaethau lechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS).

Roedd amseroedd aros yn bryder. Roedd Mesur lechyd Meddwl Cymru hefyd yn berthnasol i blant. O fewn Sir Ddinbych, ymchwiliwyd i gapasiti a chafodd clinigwyr eu tynnu oddi ar waith heb fod yn glinigol. Cynyddodd hyn y capasiti am y galw.

Roedd adnabod iechyd meddwl ac effaith iechyd meddwl yn un a gymerodd y Bwrdd hynod o ddifrif.

Yn Sir Ddinbych, roedd rhwng 50 a 70 o atgyfeiriadau bob mis. Daeth y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau drwy feddygon teulu. Cyflwynwyd negeseuon testun atgoffa i leihau'r cyfraddau "peidio mynychu". Cai apwyntiadau eu cynnig mor agos i'r cartref â phosibl. Byddai'r Ganolfan Plant newydd yn Ninbych, a fyddai'n agor cyn bo hir, yn cael ei ddefnyddio hefyd. Roedd 5.5 swydd ychwanegol wedi'u sefydlu Conwy a Sir Ddinbych.

Cytunwyd y dylid gwahodd clinigwr CAMHS i fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau i drafod materion yn ymwneud â CAMHS ac y byddai papur manylach yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod Pwyllgor Archwilio Partneriaethau nesaf ym mis Gorffennaf.

PENDERFYNWYD y byddai papur manylach yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gofyn i glinigwr CAMHS fod yn bresennol hefyd.

10 Y DIWEDDARAF AR WEITHIO'N LLEOL

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth, Ardal y Gogledd, Cyngor Sir Ddinbych (SM:NL) a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Datblygu Gwasanaethau Sylfaen a Chymunedol (AD:P&SD) (BIPBC) gyflwyniad, gan roi'r ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar weithio'n lleol.

Roedd gwaith yn parhau i wella gwasanaeth ar gyfer y boblogaeth leol. Roedd y canlynol yn y themâu allweddol ar draws y gwasanaeth:-

- Mwy o ofal tu allan i'r ysbyty
- Technolegau newydd
- Atebion lleol
- Gwasanaeth a thimau integredig
- Gwellu canlyniadau iechyd
- Cynnal annibyniaeth
- Effeithlonrwydd ac osgoi dyblygu.

Roedd newyddlen ar y cyd wedi cael ei chynhyrchu yng Ngogledd Sir Ddinbych. (Roedd copïau ar gael yn y cyfarfod). Roedd y cylchlythyr wedi bod yn erfyn cyfathrebu defnyddiol.

Cafwyd cyflwyniad PowerPoint, ac roedd hwn yn cynnwys yr hyn a gyflawnwyd, beth oedd y timau ardal wedi'i oresgyn a'r heriau yn y dyfodol.

Roedd gweithdy wedi cael ei gynnal o'r blaen ble roedd materion allweddol wedi cael eu nodi.

Roedd Cytundeb ar waith ar draws yr Awdurdodau Lleol ynghylch beth oedd y blaenoriaethau. Roedd gofalwyr wedi cael eu nodi fel blaenoriaeth bwysig.

Roedd broblem o hyd o ran cyd-leoli gan fod dod o hyd i le addas yn anodd.

Gofynnodd y Cynghorydd Jeanette Chamberlain Jones am i'r wybodaeth ddiweddaraf am weithio'n lleol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau mewn chwe mis gyda chwestiynau perthnasol yn cael eu hanfon at y Cydlynnydd Archwilio i'w hanfon ymlaen at yr AD:P&CSD.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn derbyn a nodi'r cyflwyniad a bod adroddiad efo'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau mewn chwe mis.

11 DIWEDDARIAD AR FATERION DIOGELU IECHYD

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd (D:PH) a'r Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd (PPHP) Dr Judy Hart, Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy a gyflwynodd yr Adroddiad Tîm Diogelu Iechyd.

Nododd Dr Hart bod Geoff Lang wedi dymuno gwneud y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yn ymwybodol bod yr haint a dorrodd allan yn Ysbyty Glan Clwyd (YGC) bellach dan reolaeth. Argymhellwyd bod y prosesau yn YGC yn cael eu hadolygu. Er mwyn cynorthwyo gyda hyn, roedd arbenigwr allanol wedi cael ei recriwtio i gynorthwyo'r Bwrdd Iechyd cyfan. Byddai hyn yn cael ei arwain gan y Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Nyrsio.

O dan y Rheoliadau Rhagofalon Iechyd 2010, cafwyd hysbysiadau o afiechydon naill ai oddi wrth feddygon teulu neu feddygon ysbyty.

Cafodd un mater ei godi yn y Pwyllgor ynghylch traws-heintio, er enghraifft gallai nyrsys yn gwisgo eu gwisgoedd allan o'r ysbyty a hefyd meddygon sydd ddim yn gwisgo cot wen gario haint ar eu dillad.

Argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Cynllunio, BIPBC bod cynrychiolwyr o Rheoli Heintiau BIPBC yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yn y dyfodol i drafod y mater hwn yn fanylach.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn derbyn a nodi'r cyflwyniad a bod cynrychiolwyr o Rheoli Haint BIPBC yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yn y dyfodol.

12 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynnydd Archwilio adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn am farn yr Aelodau ar raglen waith y Pwyllgor yn y dyfodol ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol. Roedd rhaglen waith i'r dyfodol ddrafft (Atodiad 1), rhaglen waith i'r dyfodol y Cabinet (Atodiad 2) a chynnydd gyda Phenderfyniadau Pwyllgor (Atodiad 3) ynghlwm i'r adroddiad.

Cyfarfod 18 Gorffennaf 2013 – dylid anfon unrhyw gwestiynau ynghylch Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) at y Cydlynnydd Archwilio i'w anfon ymlaen i BIPBC.

Dwedodd y Cydlynnydd Archwilio bod angen cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar gyfer pob un o'r Grwpiau Herio Gwasanaeth.

PENDERFYNWYD –

- (i) *Yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r rhaglen waith fel y'i nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad, a*
- (ii) *Penodi'r aelodau canlynol yn gynrychiolwyr y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar gyfer y Grwpiau Herio Gwasanaeth:-*

*Tai a Datblygu Cymunedol – Bill Tasker
Plant a Theuluoedd – Jeanette Chamberlain Jones
Oedolion a Gwasanaethau Busnes – Ann Davies
Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd – Meirick Lloyd Davies
Cynllunio Busnes a Pherfformiad – Huw Williams
Addysg, Cwsmeriaid a Chefnogaeth – Pat Jones
Addysg – Margaret McCarroll
Yr Amgylchedd a Phriffyrdd – Huw Williams
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd – Meirick Lloyd Davies
Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden - i'w gadarnhau
Cyllid ac Asedau - i'w gadarnhau
AD Strategol – i'w gadarnhau*

ac y dylid cysylltu â'r tri aelod absennol o'r cyfarfod i ofyn a oes ganddynt ddi-ddordeb yn y swyddi gwag.

13 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.10 p.m.